ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Bwletin Ystadegol

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

5 Rhagfyr 2019
SB 57/2019

# Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19: Cymraeg yn y Gweithle

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19, gofynnwyd i bobl gyflogedig am eu defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, a ph'un a yw eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno'r canlyniadau.



## Prif bwyntiau

### Siarad gyda chydweithwyr

- Roedd 80% o siaradwyr Cymraeg yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr, tra na fod yr 20% sy'n weddill yn siarad Cymraeg ag unrhyw un o'u cydweithwyr Cymraeg eu hiaith.
- Roedd rhuglder yn chwarae rôl sylweddol yn eu penderfyniad i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr. Dywedodd 93% o siaradwyr Cymraeg rhugl eu bod yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai o'u cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, o'i gymharu â 38% o'r rheiny nad ydynt yn rhugl.
- Roedd menywod, pobl dros 60 oed, pobl a ddysgodd i siarad Cymraeg yn ifanc, a phobl yn y gogledd-orllewin yn fwy tebygol o siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr Cymraeg.

### Siarad gyda phobl y tu allan i'w sefydliad, fel rhan o'u swydd

- Roedd siaradwyr Cymraeg rhugl ddwywaith yn fwy tebygol na siaradwyr Cymraeg nad ydynt yn rhugl o fod mewn swydd a oedd yn gofyn iddynt siarad â phobl y tu allan i'w sefydliad (mewn unrhyw iaith).
- Nododd 93% o gyflogeion sy'n rhugl yn Gymraeg eu bod yn siarad o leiaf peth Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r sefydliad. Fodd bynnag, dim ond 42% o'r rheiny nad ydynt yn rhugl a nododd eu bod yn siarad unrhyw Gymraeg gyda phobl y tu allan i'r sefydliad.

### Cyflogwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

- Dywedodd ychydig yn llai na thraean o gyflogeion fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.
- Roedd cyflogeion sy'n gallu siarad Cymraeg, menywod, pobl yn y gogledd-orllewin, neu bobl â chymwysterau uwch, yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i staff ddysgu Cymraeg.

## Am y bwletin hwn

Mae'r bwletin hwn yn rhoi dadansoddiad manylach o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 mewn perthynas â'r **Gymraeg**.

Mae'r holiadur cyfan i'w gael ar dudalennau gwe yr Arolwg Cenedlaethol.

Gellir gweld y data a gyflwynir yn y bwletin hwn drwy'r dangosydd canlyniadau.

## Yn y bwletin hwn

Rhagarweiniad 2
Gallu Cymraeg pobl sydd mewn gwaith 3
Siarad Cymraeg gyda cydweithwyr 4
Siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r sefydliad 8
Cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg 10
Gwybodaeth allweddol am ansawdd 12

Ystadegydd: Lisa Walters ~ 0300 025 6682 ~ dataiaithgymraeg@llyw.cymru

Ymholiadau gan y wasg: 0300 025 8099 Ymholiadau gan y cyhoedd: 0300 025 5050 Twitter: @YstadegauCymru

## Rhagarweiniad

Mae strategaeth y Gymraeg, Cymraeg 2050, yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru, sef sicrhau miliwn  o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ynghyd â chynyddu'r defnydd a wneir o'r iaith.

I gyflawni'r targed hwn, un o amcanion y strategaeth yw cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle. Mae'r strategaeth yn nodi: "*Mae'r gweithle'n ganolog i'n bywydau bob dydd ... [ac yn] gyfle i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Gymraeg*."

Darparodd Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 fframwaith cyfreithiol ar gyfer defnyddio'r Gymraeg wrth gyflawni gwasanaethau cyhoeddus. Galluogodd y mesur ddatblygiad Safonau'r Gymraeg sydd â'r nod o sicrhau nad yw sefydliadau yng Nghymru'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg. Mae'r safonau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau hyrwyddo'r Gymraeg, sicrhau bod gan y Gymraeg rôl weithredol yng ngweinyddiaeth fewnol y sefydliad, a sicrhau bod yr iaith yn hygyrch i'r cyhoedd.

Nid dim ond i'r sefydliadau sy'n destun i'r ddeddfwriaeth y mae egwyddorion cynllunio ieithyddol yn y gweithle yn berthnasol. Mae Cymraeg 2050 yn nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu adeiladu ar y gwaith sy'n digwydd ar draws yr holl sectorau i gynyddu'n sylweddol y cyfleoedd i unigolion ddefnyddio'u sgiliau iaith yn y gweithle.

Er mwyn monitro'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, cynhwyswyd cwestiynau yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 ar y defnydd o'r Gymraeg gyda chydweithwyr a chyda phobl y tu allan i'r sefydliad fel rhan o'r swydd, yn ogystal â'r cyfleoedd a ddarperir gan gyflogwyr i gyflogeion ddysgu Cymraeg. Mae'r bwletin hwn yn cyflwyno canlyniadau'r cwestiynau hyn.

**Diffiniad 'siaradwyr Cymraeg'**

Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19, gofynnwyd i ymatebwyr a oeddent yn gallu siarad Cymraeg. Yr atebion posibl oedd:

1. Gallaf
2. Na allaf
3. Na allaf, ond mae gennyf rywfaint o allu Cymraeg


Yn y bwletin hwn, ystyrir pobl a atebodd '1' fel siaradwyr Cymraeg, '2' fel pobl nad ydynt yn medru'r Gymraeg a '3' fel pobl sydd â 'rhywfaint o allu Cymraeg'.

Disgrifir pobl a atebodd 1 neu 3 fel pobl a chanddynt 'o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg'.

## Gallu Cymraeg pobl sydd mewn gwaith


Dangosodd Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19 fod 18% o oedolion 16 oed a throsodd wedi dweud eu bod yn siarad Cymraeg, gyda 15% arall yn dweud bod ganddynt rywfaint o allu Cymraeg. Roedd 29% ohonynt yn gallu deall Cymraeg llafar, 22% yn gallu darllen Cymraeg ac 19% yn gallu ysgrifennu Cymraeg. Roedd oedolion cyflogedig ychydig yn fwy tebygol nac oedolion anghyflogedig i feddu ar sgiliau Cymraeg. Fodd bynnag, mae siaradwyr Cymraeg hefyd yn fwy tebygol o fod yn iau ac i gael cymwysterau, ffactorau sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod mewn cyflogaeth. Dangosir y gwahaniaethau rhwng sgiliau Cymraeg pobl gyflogedig a phobl anghyflogedig yn Siart 1 isod.

**Siart 1: Sgiliau Cymraeg, yn ôl statws cyflogaeth**





Roedd pobl gyflogedig hefyd yn fwy tebygol o fod yn rhugl yn Gymraeg na phobl anghyflogedig, fel a ddangosir yn Siart 2.

**Siart 2 Rhuglder yn Gymraeg, yn ôl statws cyflogaeth**




Roedd pobl gyflogedig hefyd yn fwy tebygol o siarad Cymraeg yn fwy aml na phobl anghyflogedig, fel a ddangosir yn Siart 3.

**Siart 3 Pa mor aml y siaredir Cymraeg, yn ôl statws cyflogaeth**




## Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr

Nododd 72% o bobl gyflogedig a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg fod ganddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn eu sefydliad. Roedd siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o nodi hyn, gyda 78% o siaradwyr Cymraeg a 68% o'r rheiny a chanddynt rywfaint o allu Cymraeg yn nodi fod ganddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn eu sefydliad. Nodwyd y cwestiwn hwn yn Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 hefyd, ond i siaradwyr Cymraeg yn unig, a nododd 80% ohonynt bryd hynny fod ganddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.[1]

Roedd menywod cyflogedig a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg ychydig yn fwy tebygol o nodi bod ganddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg na dynion (75% o'i gymharu â 68%). Fel y gellid ei ddisgwyl efallai, roedd pobl sy'n byw mewn ardaloedd a chanddynt gyfran uwch o siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o gael cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn eu sefydliad, fel y dangosir yn Siart 4.

**Siart 4: Y gyfran a chanddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl rhanbarth[2] (a)**




(a) Dim ond i gyflogeion â pheth gallu Cymraeg y gofynnwyd hyn. Gweler y troednodyn am ddiffiniad o'r rhanbarthau.

Yna, gofynnwyd i bobl gyflogedig a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg ac a nododd fod ganddynt gydweithwyr sy'n siarad Cymraeg a oeddent yn siarad â'r cydweithwyr hynny yn Gymraeg. Yn ddigon naturiol, roedd eu gallu i siarad Cymraeg yn chwarae rôl sylweddol o ran a oeddent yn siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr. Roedd 32% o siaradwyr Cymraeg yn siarad gyda phob un o'r cydweithwyr hyn yn Gymraeg, roedd 20% yn siarad Cymraeg gyda'r rhan fwyaf, ac roedd 29% yn siarad Cymraeg gyda rhai, gan adael 20% o siaradwyr Cymraeg nad oeddent yn siarad Cymraeg â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, i'r rheiny a nododd fod ganddynt rywfaint o allu Cymraeg, nid oedd 70% ohonynt yn siarad Cymraeg â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg (nododd 2% eu bod yn siarad Cymraeg â phob cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg, 2% gyda'r rhan fwyaf, a 26% gyda rhai).

Roedd cwestiwn tebyg yn Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 a ofynnwyd i *siaradwyr Cymraeg* ac o'r rhai oedd â chydweithwyr oedd yn siarad Cymraeg, nid oedd 24% yn siarad Cymraeg â nhw.[1]

---


[1] Nid oedd yr Arolwg Defnydd Iaith yn 2013-15 yn cynnwys cwestiwn cymharol.

[2] Mae rhanbarth y **Gogledd-orllewin** yn cynnwys ardaloedd awdurdod lleol Ynys Môn, Gwynedd a Chonwy, mae'r **Gogledd-ddwyrain** yn cynnwys Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam, mae'r **Canolbarth** yn cynnwys Powys a Cheredigion, mae'r **De-orllewin** yn cynnwys Sir Benfro, Sir Gâr, Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Mae gweddill yr ardaloedd awdurdod lleol yn y **De-ddwyrain** (Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful, Caerffili, Blaenau Gwent, Tor-faen, Sir Fynwy a Chasnewydd).

Wrth gyfuno'r bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg gyda phobl oedd â rhywfaint o allu Cymraeg, roedd 20% yn nodi eu bod yn siarad Cymraeg gyda phob cydweithiwr sy'n siarad Cymraeg, 13% gyda'r rhan fwyaf a 28% gyda rhai. Roedd 40% nad oeddent yn siarad gyda nhw yn Gymraeg. Roedd menywod ychydig yn fwy tebygol na dynion i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg (63% o fenywod o gymharu â 56% o ddynion).

Roedd amrywiaeth yn ôl oedran. Cyflogeion â rhywfaint o allu Cymraeg oedd yn 60 oed neu drosodd oedd fwyaf tebygol i siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad yr iaith. Dangosir hyn yn Siart 5 isod. Roedd yr amrywiaeth yn ôl oedran yn parhau i fodoli hyd yn oed o ystyried lefelau rhuglder.


**Siart 5: Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl oedran (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg oedd â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

Roedd ymatebwyr yn y Gogledd-orllewin a chanddynt cydweithwyr sy'n siarad Cymraeg yn llawer mwy tebygol i siarad Cymraeg â'r cydweithwyr hynny na'r ymatebwyr yn y de-ddwyrain. Mae hyn i'w ddisgwyl i raddau oherwydd bod cyfran uwch o siaradwyr Cymraeg rhugl i'w cael yn y gogledd-orllewin, o gymharu â'r de-ddwyrain. Roedd yr amrywiaeth hon fesul ardal yn parhau i fodoli hyd yn oed ar ôl rheoli am eu lefelau rhuglder.


**Siart 6: Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl rhanbarth (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg oedd â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg. Gweler y troednodyn ar dudalen 4 am ddiffiniad o'r rhanbarthau.

Fel y gellid ei ddisgwyl efallai, roedd rhuglder ymatebwyr yn Gymraeg yn ffactor pwysig iawn o ran pennu a oeddent yn siarad â chydweithwyr eraill a oedd yn siarad Cymraeg yn Gymraeg. Roedd 93% o gyflogeion a oedd yn rhugl yn Gymraeg yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai cydweithwyr a oedd yn siarad Cymraeg (nododd 44% eu bod yn siarad Cymraeg gyda phob cydweithwyr a oedd hefyd yn medru'r iaith). Mae hyn yn cwympo i 61% o'r rheiny allai siarad tipyn o Gymraeg, 37% o'r rheiny allai siarad ond ychydig o Gymraeg, a 22% o'r rheiny a allai ddweud ond ychydig eiriau. Dangosir hyn yn Siart 7 isod.


**Siart 7 Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl rhuglder (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg oedd â chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg.

Roedd pa mor aml y mae rhywun yn siarad Cymraeg hefyd yn ffactor o ran a fyddent yn siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr. Roedd 86% o gyflogeion a oedd yn siarad Cymraeg bob dydd yn siarad â chydweithwyr eraill oedd yn medru'r Gymraeg yn Gymraeg. (Roedd 38% yn siarad Cymraeg gyda phob cydweithiwr oedd yn medru'r iaith). Mae hyn yn lleihau'n sylweddol pan fo rhywun yn siarad Cymraeg yn llai aml, fel y mae Siart 8 yn ei ddangos isod.


**Siart 8 Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl pa mor aml y siaredir Cymraeg (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg a oedd â chydweithwyr sy'n siarad Cyrmaeg.

Yn yr Arolwg Cenedlaethol, gofynnwyd i ymatebwyr oedd yn siarad Cymraeg ble y bu iddyn nhw ddysgu'r iaith. Roedd hyn hefyd yn chwarae rôl sylweddol ym mhenderfyniad cyflogeion i siarad Cymraeg gyda'u cydweithwyr. Roedd 90% o gyflogeion a ddysgodd Gymraeg gartref fel plentyn bach a 74% o'r rheiny a ddysgodd Gymraeg yn y feithrinfa yn siarad â chydweithwyr Cymraeg eu hiaith yn Gymraeg. Mae hyn yn cymharu â dim ond 30% o'r rheiny a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd, fel y dangosir yn Siart 9 isod.

**Siart 9 Siarad Cymraeg gyda chydweithwyr sy'n siarad Cymraeg, yn ôl ble y dysgwyd Cymraeg (a)**





(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg a oedd â chydweithwyr sy'n siarad Cyrmaeg.

## Siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r sefydliad

Nododd  55% o gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg eu bod yn siarad gyda phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd (ddim o reidrwydd yn Gymraeg). Roedd y rheiny a oedd yn rhugl yn y Gymraeg, neu a oedd yn ei siarad yn amlach, yn llawer iawn mwy tebygol i ddweud bod eu swydd yn ei gofyn iddynt siarad â phobl y tu allan i'r sefydliad. Roedd 80% gyflogeion a oedd yn rhugl yn y Gymraeg yn siarad â phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd, o'i gymharu â 40% o'r rheiny a allai ond ddweud ambell air yn Gymraeg. Dangosir hyn yn Siart 10.

**Siart 10 Siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd, yn ôl rhugldr a pha mor aml y siaredir Cymraeg (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu i siarad Cymraeg

Gallai hyn fod oherwydd bod cyflogwyr yn ei gwneud yn ofynnol i staff rheng flaen allu siarad Cymraeg neu gan fod sefydliadau'n defnyddio eu staff a chanddynt sgiliau Cymraeg ar gyfer rolau sy'n golygu cysylltu â phobl y tu allan i'r sefydliad.

Yna, gofynnwyd i bobl gyflogedig, oedd ag o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg ac a oedd yn siarad gyda phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd, a oeddent yn siarad â'r bobl hynny yn Gymraeg. Unwaith eto, ymddengys bod eu gallu Cymraeg yn chwarae rôl bwysig o ran a oeddent yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'r sefydliad.

Nododd 39% *o siaradwyr Cymraeg* eu bod yn siarad Cymraeg gyda phawb neu'r rhan fwyaf o bobl yr oeddent yn siarad â nhw, 46% gyda rhai a dywedodd 14% nad oeddent yn siarad Cymraeg gyda'r bobl hyn. Fodd bynnag, o ran y bobl a nododd fod ganddynt rywfaint o allu Cymraeg, nododd 71% nad oeddent yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad (dywedodd 3% eu bod siarad Cymraeg gyda phawb neu'r rhan fwyaf a nododd 26% eu bod yn siarad Cymraeg gyda rhai).

Roedd Arolwg Defnydd Iaith 2004-06 yn cynnwys cwestiwn tebyg *ar gyfer siaradwyr Cymraeg yn unig* ac o'r rheiny a chanddynt gleientiaid oedd yn siarad Cymraeg, roedd 32% yn siarad â nhw yn bennaf yn Gymraeg, 49% weithiau, a nododd 19% nad oeddent yn siarad Cymraeg â nhw.[3]


[3] Nid oedd yr Arolwg Defnydd Iaith yn 2013-15 yn cynnwys cwestiwn cyffelyb

O ran y bobl hynny a nododd eu bod yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad, wrth gyfuno'r bobl oedd yn gallu siarad Cymraeg gyda phobl oedd â rhywfaint o allu Cymraeg, nododd 27% eu bod yn siarad Cymraeg gyda phawb neu'r rhan fwyaf o'r bobl yr oeddent yn siarad â nhw, 39% gyda rhai, a nododd 33% nad oeddent yn siarad Cymraeg gyda'r bobl hynny.

Roedd cyflogeion hŷn â rhywfaint o allu Cymraeg a oedd yn siarad â phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd yn fwy tebygol o siarad gyda phawb neu'r rhan fwyaf yn Gymraeg.

Roedd ymatebwyr yn y gogledd-orllewin a oedd yn siarad â phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd yn fwy tebygol o siarad gyda phawb neu'r rhan fwyaf yn Gymraeg, o gymharu â'r ymatebwyr yn y gogledd-ddwyrain. Dangosir hyn yn Siart 11.

**Siart 11: Siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad, yn ôl rhanbarth (a)**




(a) Gofynnwyd hyn i gyflogeion, a chanddynt o leiaf rhywfaint o allu Cymraeg, a oedd yn siarad â phobl y tu allan i'w sefydliad fel rhan o'u swydd. Am ddiffiniad o'r rhanbarthau, gweler y troednodyn ar dudalen 4.

Roedd cyflogeion sy'n rhugl yn Gymraeg, a'r rheiny a oedd yn siarad yr iaith amlaf, oedd hefyd yn siarad gyda phobl y tu allan i'w sefydliad yn llawer iawn mwy tebygol i siarad gyda phawb neu'r rhan fwyaf yn Gymraeg.

Roedd 93% o siaradwyr Cymraeg rhugl yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai pobl y tu allan i'w sefydliad, o'i gymharu â 42% o'r rheiny nad ydynt yn rhugl.

Roedd 91% o'r rheiny sy'n siarad Cymraeg bob dydd yn siarad Cymraeg gydag o leiaf rhai pobl y tu allan i'w sefydliad, o'i gymharu â 40% o'r rheiny sy'n siarad Cymraeg yn llai aml.

Roedd lle y dysgodd cyflogeion eu Cymraeg hefyd yn chwarae rôl o ran a oedd cyflogeion yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad. Roedd 91% o gyflogeion a ddysgodd Gymraeg gartref fel plentyn bach a 74% o'r bobl a ddysgodd Gymraeg yn y feithrinfa yn siarad Cymraeg gyda phobl y tu allan i'w sefydliad. Mae hyn yn cymharu â dim ond 36% o'r rheiny a ddysgodd Gymraeg yn yr ysgol uwchradd.

## Cyflogwyr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg


Gofynnwyd i bob person cyflogedig (p'un a oeddent yn siarad Cymraeg ai peidio) a yw eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Dywedodd 9% o'r bobl gyflogedig nad oedd y cwestiwn yn berthnasol iddynt. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn hunangyflogedig. Dywedodd 4% arall nad oeddent yn gwybod. Roedd 6% o siaradwyr Cymraeg cyflogedig yn dweud nad oeddent yn gwybod, a'i gymharu â 3% o'r rheiny nad oeddent yn gallu siarad Cymraeg.

O'r bobl gyflogedig allai ateb y cwestiwn, nododd 31% fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg.

Roedd cyflogeion sy'n siarad Cymraeg yn fwy tebygol na'r cyflogeion nad ydynt yn siarad Cymraeg o nodi bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Dywedodd hanner y cyflogeion sy'n siarad Cymraeg fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, o'i gymharu ag ychydig o dan chwarter y cyflogeion nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg. Gallai hyn fod oherwydd bod siaradwyr Cymraeg yn fwy tebygol o weithio i gyflogwyr sy'n gwerthfawrogi'r iaith Gymraeg, neu eu bod yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg ac felly fod mwy o alw am ddysgu'r iaith neu fwy o ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ddefnyddio neu ddysgu'r iaith. Roedd pobl oedd yn fwy rhugl yn Gymraeg neu a oedd yn ei siarad yn fwy rheolaidd hefyd yn fwy tebygol o ddweud bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, fel a nodir yn Siart 12.

**Siart 12: Cyflogeion a adroddodd fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, yn ôl rhuglder yn Gymraeg a pha mor aml y siaredir Cymraeg**





Roedd menywod yn fwy tebygol na dynion o nodi bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Nododd 39% o gyflogeion benywaidd fod eu cyflogwr yn cynnig cyfloeoedd i ddysgu Cymraeg, o'i gymharu â 22% o ddynion. Gallai hyn fod yn adlewyrchiad o'r math o gyflogwyr y mae menywod yn fwy tebygol o weithio iddynt (h.y. y sector cyhoeddus).

Nododd 43% o gyflogeion yn y gogledd-orllewin fod eu cyflogwr wedi cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Mae hyn i'w gymharu â 32% yn y de-orllewin, 31% yn y canolbarth, 30% yn y gogledd-ddwyrain a 28% yn y de-ddwyrain.4

Roedd cyflogeion â chanddynt gymhwyster uwch yn fwy tebygol o nodi bod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, o gymharu â phobl â chymhwysterau is neu ddim cymwysterau. Dangosir hyn yn Siart 13.


**Siart 13: Cyflogeion a adroddodd fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, yn ôl cymhwyster uchaf (a)**




(a) Mae'r Siart hwn yn hepgor pobl y mae eu cymhwyster uchaf yn gymhwyster tramor, prentisiaethau crefft, a chymwysterau eraill.

Roedd perthynas hefyd gyda chyflogau cyflogeion. Y bobl â chyflogau cyn-treth o £31,100 i £41,499 oedd y mwyaf tebygol i nodi bod eu cyflogwr wedi cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Dangosir hyn yn Siart 14 isod.

**Siart 14: Cyflogeion a adroddodd fod eu cyflogwr yn cynnig cyfleoedd i ddysgu Cymraeg, yn ôl incwm blynyddol**




4 Am ddiffiniad o'r rhanbarthau, gweler y troednodyn ar dudalen 4

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

### Cefndir

Cynhelir Arolwg Cenedlaethol Cymru gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar ran Llywodraeth Cymru. Mae'r canlyniadau yr adroddir arnynt yn y bwletin hwn yn seiliedig ar gyfweliadau a gynhaliwyd rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019.

Dewiswyd 24,762 o gyfeiriadau ar hap o Ffeil Cyfeiriadau Codau Post Defnyddwyr Bychan y Post Brenhinol. Aeth cyfwelwyr i bob cyfeiriad a dewis un oedolyn (16+ oed) ar hap. Yna, cynhaliwyd cyfweliad wyneb-yn-wyneb 45-munud o hyd gyda'r oedolyn, gan gyffwrdd ar ystod o safbwyntiau, ymddygiadau, a nodweddion. Cyflawnwyd 11,922 o gyfweliadau gyda chyfradd ymateb o 54.2%.

Mae rhagor o wybodaeth ar y dull ar gael yn yr adroddiad technegol.

### Dehongli'r canlyniadau

Dim ond ar yr ymatebwyr hynny a ddarparodd ateb i'r cwestiwn perthnasol y mae'r ffigurau yn y bwletin hwn yn seiliedig. Gall methiant i ateb cwestiwn ddigwydd am sawl rheswm, gan gynnwys gwrthod ateb, neu anallu i ateb cwestiwn penodol.

Lle trafodir perthynas rhwng dau ffactor, nid yw hynny o reidrwydd yn golygu fod y berthynas yn un achosol. Mae angen dadansoddi'n fanylach i bennu a yw un ffactor yn achosi newid mewn un arall, neu i ystyried a yw ffactorau eraill yn bwysicach mewn gwirionedd.

Pwysolir y canlyniadau i sicrhau eu bod yn adlewyrchu poblogaeth Cymru o ran oedran a rhyw.

### Adroddiad ansawdd

Mae adroddiad ansawdd crynodebol ar gael, sy'n cynnwys gwybodaeth fanylach ar ansawdd yr arolwg a chrynodeb o'r dulliau a ddefnyddir i gasglu a chrynhoi'r canlyniadau.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf Ystadegau a Gwasanaeth Cofrestru 2007, sy'n dangos eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ystadegau gwladol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau Swyddogol. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt yn dilyn asesiad gan gangen reoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau'n cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a dadleuon cyhoeddus.

Cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru yw parhau i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os down i bryderu a yw'r ystadegau hyn yn dal i gyrraedd y safonau priodol, byddwn yn trafod y pryderon â'r Awdurdod yn brydlon. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg pan nad yw'r safonau uchaf yn cael eu cynnal, a gellir adennill y statws pan fo'r safonau'n cael eu hadfer.

Mae Statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod ein hystadegau'n bodloni'r safonau uchaf posib o ran dibynadwyedd, ansawdd a gwerth cyhoeddus, ac mae'n gyfrifoldeb arnom gynnal y gydymffurfiaeth hon â'r safonau hyn.

Cadarnhawyd y byddai'r ystadegau hyn yn parhau i gael eu galw'n Ystadegau Gwladol yn 2017 yn dilyn gwiriad cydymffurfiaeth gan dîm rheoleiddio'r Swyddfa Ystadegau [llythyr cadarnhau]. Y tro diwethaf i asesiad llawn gael ei gynnal ar yr ystadegau hyn [adroddiad llawn], a hynny gan ddilyn y Cod Ymarfer, oedd yn 2013.

Ers yr adolygiad diwethaf gan dîm rheoleiddio'r Swyddfa Ystadegau, rydym wedi parhau i gydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau, gan wneud y gwelliannau canlynol:

- Dadansoddiadau manylach yn y dangosydd canlyniadau.a'i gwneud yn haws i ddefnyddwyr gymharu canlyniadau ar draws y blynyddoedd;
- Diweddaru pynciau'r arolwg yn flynyddol i ddiwallu'r anghenion polisi newidiol; a
- Cynnwys dadansoddiad atchwel fel rhan safonol o'n hallbwn i helpu defnyddwyr i ddeall cyfraniad ffactorau penodol i ddeilliannau sydd o ddiddordeb.

## Amrywioldeb samplu

Mae lwfans ansicrwydd ynghlwm wrth amcangyfrifon yr Arolwg Cenedlaethol. Daw peth o'r ansicrwydd o'r ffaith y bydd unrhyw sampl o'r boblogaeth a ddewisir ar hap yn rhoi canlyniadau ychydig yn wahanol i'r canlyniadau a geid o gynnal yr arolwg gyda'r boblogaeth gyfan. Gelwir hyn yn gyfeiliornadau samplu. Gellir defnyddio cyfyngau hyder i gael syniad o'r cyfeiliornadau samplu. Cyfrifir y rhain o amgylch amcangyfrifiad o'r arolwg a rhoir ystod y mae'r gwerth gwirioneddol yn debygol o fod ynddi. Gyda 95% o samplau arolygon, bydd y cyfwng hyder 95% yn cynnwys y 'gwir' ffigwr ar gyfer y boblogaeth gyfan (hynny yw, y ffigwr a geid o gynnwys y boblogaeth gyfan yn yr arolwg). Yn gyffredinol, po leiaf maint y sampl, po ehangaf y cyfwng hyder. Mae cyfyngau hyder wedi'u nodi yn nhablau canlyniadau'r arolwg ar StatsCymru.

Fel gydag unrhyw arolwg, mae'r Arolwg Cenedlaethol hefyd yn agored i ystod o ffynonellau eraill o ansicrwydd a chyfeiliornadau. Er enghraifft, oherwydd methiant i ateb, neu oherwydd nad yw ymatebwyr wedi dehongli'r cwestiynau fel y bwriadwyd, neu wedi ateb yn anghywir; a gellir cyflwyno camgymeriadau wrth brosesu'r data hefyd. Cyfeiliornadau nad ydynt yn ymwneud â samplu yw'r rhain, a thrafodir hyn ymhellach yn adroddiad ansawdd yr adolygiad.

## Gwahaniaethau arwyddocaol

Lle bo testun y bwletin hwn yn nodi gwahaniaeth rhwng dau ganlyniad o'r Arolwg Cenedlaethol, rydym wedi gwirio i sicrhau nad yw cyfyngau hyder y ddau ganlyniad yn gorgyffwrdd. Byddai hynny'n awgrymu bod y gwahaniaeth yn ystadegol-arwyddocaol (ond fel y nodir uchod, nid yw hyn mor drylwyr a chynnal prawf ystadegol ffurfiol), hynny yw bod y tebygolrwydd o gael y canlyniadau hyn os nad oes gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp yn y boblogaeth ehangach yn llai na 5% (1 o bob 20).

Mae gwirio a yw'r cyfyngau hyder yn gorgyffwrdd yn llai tebygol na phrawf ystadegol ffurfiol o arwain at gasgliadau bod gwahaniaeth gwirioneddol rhwng y grwpiau. Hynny yw, mae'n fwy tebygol o arwain at ganlyniadau negyddol ffug (hynny yw dweud nad oes gwahaniaeth gwirioneddol pan fod yna wahaniaeth mewn gwirionedd). Mae hefyd yn llai tebygol o arwain at ganlyniadau cadarnhaol ffug, sef casgliadau anghywir bod gwahaniaethau pan nad oes yna wahaniaethau mew gwirionedd. Mae cynnal

sawl cymhariaeth yn cynyddu'r tebygolrwydd o gael canlyniadau cadarnhaol ffug. Felly, pan wneir sawl cymhariaeth, mae natur geidwadol y prawf yn fantais gan fod y tebygolrwydd hwn yn llai (er na ellir ei ddileu yn llwyr).

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith nod llesiant i Gymru, sef: Cymru sy'n fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iach, a chyfrifol ar lefel fyd-eang, sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) cyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") y mae'n rhaid eu cymhwyso er mwyn mesur cynnydd tuag at gyrraedd y nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Gosodwyd y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ym mis Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am ddangosyddion, naratifau ar gyfer yr amcanion lles, a gwybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn adroddiad Llesiant Cymru.

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno rhywfaint o wybodaeth gyd-destunol ar gyfer y ddau ddangosydd cenedlaethol sy'n ymwneud â'r Gymraeg, sef canran y bobl sy'n:

- Siarad Cymraeg yn ddyddiol ac yn gallu siarad mwy nag ychydig eiriau yn unig (No. 36),
- Gallu siarad Cymraeg (No. 37).

Rhagor o wybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau yn y datganiad hwn hefyd ddarparu naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a chael eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn cysylltiad â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r bwletin ar gael yma: https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-diwylliant-ar-iaith-gymraeg
Cyhoeddwyd y cyhoeddiad cyntaf mewn perthynas â'r arolwg ar 18 Mehefin 2019.

## Diweddariad nesaf

Niw yw'n gyhoeddiad rheolaidd.

## Hoffem ni gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i dataiaithgymraeg@llyw.cymru

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.

OGL